# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 12-09 (p1) : 21 Mai 2009**

# Rôl Llywodraethwyr Ysgol

## Diben

1. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cynnal ymchwiliad i rôl llywodraethwyr ysgol. Mae wedi gwahodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

## Crynodeb

2. Mae dros 23,000 o lywodraethwyr ysgol yng Nghymru[1]. Mae gan lywodraethwyr ysgol amrywiaeth eang o ddyletswyddau a phwerau. Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol yr ysgol, ei pherfformiad, cyllideb a staff. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yn darparu cymorth mewn sawl ffordd.

## Sut mae Llywodraethu Ysgolion yn Gweithio

3. Mae llywodraethwyr ysgol wedi bodoli ers degawdau. Mae eu rôl bresennol yn tarddu o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 a gyflwynodd y cysyniad o ysgolion a reolir yn lleol. Rhoddodd y Ddeddf lawer mwy o bŵer i lywodraethwyr i wneud penderfyniadau, gan y byddai gwneud penderfyniadau ar lefel yr ysgol, yn hytrach nac yn bellach ar lefel yr awdurdod addysg lleol (AALl), yn gwella safonau cyrhaeddiad. Mae Deddfau dilynol, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Deddf Addysg 2002, wedi adeiladu ar yr un model o lywodraethu ysgolion.

4. Mae gan bob ysgol offeryn llywodraethu sy'n nodi cyfansoddiad y corff llywodraethu. Mae llywodraethu ysgolion yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai'r corff llywodraethu gynrychioli'r ysgol a'r gymuned ehangach y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu. Mae aelodaeth yn cael ei nodi gan y gyfraith i wneud i hyn ddigwydd. Mae'n rhaid i bob corff llywodraethu gynnwys llywodraethwyr sy'n rhieni, llywodraethwyr sy'n athrawon, llywodraethwyr sy'n staff (ar wahân i athrawon), llywodraethwyr AALl, a llywodraethwyr cymunedol[2]. Hefyd, mae gan ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol lywodraethwyr sefydledig sy'n cynrychioli buddiannau'r cyrff enwadol neu sefydledig sydd â budd ynddynt. Mae penaethiaid yn llywodraethwyr yn awtomatig os nad ydynt yn dewis fel arall. Mae llywodraethwyr yn cael eu hethol neu eu penodi am dymor o bedair blynedd. Gall llywodraethwyr a benodir gael eu diswyddo gan y

---

[1] Ffynhonnell: Tabl 1.14 'Llywodraethwyr yn gwasanaethu mewn ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd a gynhelir' – *Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2008.*

[2] Nid oes gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir lywodraethwyr cymunedol.

corff sy'n eu penodi ond gall llywodraethwyr a etholir wasanaethu tan iddynt beidio â chael eu hail-ethol.  Mae'n rhaid i bob corff llywodraethu benodi clerc a bob blwyddyn mae'n rhaid i'r corff llywodraethu ethol cadeirydd ac is-gadeirydd.

5. Mae llywodraethu hefyd yn seiliedig ar yr egwyddor bod llywodraethwyr yn gyfrifol ar y cyd am benderfyniadau a chamau gweithredu.  Nid ydynt yn atebol yn unigol am y camau gweithredu a gymerant cyn belled â'u bod yn gwneud hynny'n gorfforaethol.  Mae hon yn ffordd bwysig o ddiogelu gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am adnoddau sylweddol ac sy'n gwneud penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar lawer o bobl ac sy'n gallu bod yn ddadleuol ar brydiau.  Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu gyfarfod o leiaf unwaith bob tymor ysgol.  Er mwyn gallu mynd i'r afael ag elfennau mwy manwl neu fwy arbenigol ei rôl, neu i ddatblygu prosiectau penodol, gall corff llywodraethu sefydlu pwyllgorau sydd â swyddogaethau penodol fel y gwêl yn dda.  Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob corff llywodraethu sefydlu pwyllgorau ar gyfer disgyblu a diswyddo staff (ac apelau diswyddo), disgyblu a gwahardd disgyblion[3].

## Rôl Llywodraethwyr Ysgol

6. Mae gan lywodraethwyr ysgol rôl strategol.  Eu diben yw hyrwyddo cyflawniad addysgol o'r radd flaenaf.  Er mwyn gwneud hyn, mae llywodraethwyr yn sefydlu fframwaith strategol ar gyfer yr ysgol ble mae'r pennaeth yn gweithio.  Bydd fframwaith strategol y corff llywodraethu yn:

   - pennu nodau ac amcanion ar gyfer yr ysgol;
   - pennu polisïau i gyflawni'r nodau ac amcanion; a
   - phennu targedau i gyflawni'r nodau ac amcanion.

7. Rôl y corff llywodraethu wedi hynny yw monitro a gwerthuso cynnydd tuag at y nodau ac amcanion ac adolygu'r fframwaith strategol y mae wedi'i greu.  Drwy wneud hyn, dylai'r llywodraethwyr dderbyn cyngor gan y pennaeth ond dylai hefyd fod yn barod i fod yn ffrind beirniadol i'r pennaeth, gan ddarparu cymorth a beirniadaeth adeiladol.  Nid yw'r corff llywodraethu yn gyfrifol am reoli'r ysgol o ddydd i ddydd.  Cyfrifoldeb y pennaeth yw trefnu a rheoli'r ysgol yn fewnol a gweithredu fframwaith strategol y corff llywodraethu.

8. Mae'r gyfraith yn rhoi amrywiaeth eang o bwerau a dyletswyddau i lywodraethwyr sydd i gyd â'r nod o hyrwyddo cyflawniad addysgol o'r radd flaenaf.  Yn eu plith, mae cyrff llywodraethu yn gwneud penderfyniadau o ran cyflogaeth, rheoli cyllideb yr ysgol, rheoli safle'r ysgol a phenderfynu ar amseroedd sesiynau'r ysgol.

9. Llywodraethwr da - mae creu cysylltiadau â rhieni'n hanfodol i berfformiad da ysgol, ac mae ysgolion llwyddiannus yn derbyn

---

[3] Mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol ac mae'n rhaid iddo sefydlu pwyllgor derbyn.

cefnogaeth frwd y rhieni. Mae'r gyfraith yn nodi sail ar gyfer y cysylltiadau rhwng y llywodraethwyr a rhieni sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu: gyhoeddi adroddiad blynyddol; cynnal noson rieni; cynnig cytundeb cartref-ysgol i rieni ar gyfer eu plant; a chyhoeddi gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion.

## Cymorth ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol

10. Mae gan lywodraethwyr ysgol rôl gymhleth a phwysig. Mae Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol yn darparu cymorth yn uniongyrchol neu drwy eraill mewn sawl ffordd.

11. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu Llywodraethwyr Cymru i ddarparu cymorth a chyngor annibynnol i bob llywodraethwr. Mae Llywodraethwyr Cymru yn gweithredu llinell gymorth gyfrinachol yn ystod oriau swyddfa a min nos. Mae hefyd yn cyhoeddi amrywiaeth eang o ddogfennau cyfarwyddyd a ffeiliau ffeithiau, ac maent i gyd ar gael o'i wefan[4]. Y pwysicaf o'r rhain yw'r 'Llawlyfr ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru', sef ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth a chyngor am bob elfen o lywodraethu ysgolion a chyfrifoldebau llywodraethwyr. Mae Llywodraethwyr Cymru hefyd yn mynd ati i feithrin rhwydweithiau sylfaenol o lywodraethwyr. Mae wedi sefydlu cymdeithasau lleol ac mae'n cynnal sawl cynhadledd ranbarthol yn ogystal â chynhadledd genedlaethol.

12. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi dogfennau cyfarwyddyd ar amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i gyrff llywodraethu. Maent yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraethwyr Cymru, yn ogystal ag ar wefan Llywodraeth y Cynulliad, er mwyn i lywodraethwyr allu dod o hyd i adnoddau'n hawdd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn diwygio'r 'Canllaw i'r Gyfraith' i lywodraethwyr ar gyfer ei gyhoeddi yn ystod yr haf. Bydd y canllaw cynhwysfawr hwn yn cyd-fynd â Llawlyfr Llywodraethwyr Cymru.

13. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ariannu cylchlythyr tymhorol ar gyfer llywodraethwyr, 'Cadwyn'. Mae'n cael ei olygu gan Ganolfan Abertawe ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr Cymru a Ymchwil ac mae'n cynnwys cyfraniadau gan Lywodraethwyr Cymru a Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Ganolfan hefyd yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr, mae'n cynhyrchu deunyddiau hyfforddi ar gyfer awdurdodau lleol i'w defnyddio mewn rhaglenni hyfforddiant i lywodraethwyr, ac mae'n cynnal ymchwil ar ran Llywodraeth y Cynulliad.

14. Mae awdurdodau lleol yn cyflogi swyddogion cymorth i lywodraethwyr sy'n darparu cyngor a chymorth i gyrff llywodraethu. Mae'r swyddogion hyn yn rhwydweithio drwy grŵp CCAC sy'n cyfarfod bob tymor a lle mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, Llywodraethwyr Cymru a Chanolfan Abertawe yn mynychu er mwyn hyrwyddo cyfnewid syniadau a phrofiadau.

---

[4] http://www.llywodraethwyrcymru.org.uk/

15. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant am ddim i lywodraethwyr er mwyn iddynt allu bod yn effeithiol. Mae awdurdodau lleol yn cynnal eu rhaglenni hyfforddi eu hunain drwy ddefnyddio cymysgedd o'u swyddogion eu hunain a hyfforddwyr dan gontract.

## Niferoedd Llywodraethwyr Ysgol

16. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn monitro niferoedd llywodraethwyr a lleoedd llywodraethwyr gwag drwy'r cyfrifiad CYBLD blynyddol sy'n crynhoi data o bob ysgol a gynhelir. Mae **Tabl 1** yn cofnodi nifer y llywodraethwyr mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ers 1998/9, nifer y lleoedd gwag (a pha gyfran o'r holl leoedd ar gyfer llywodraethwyr sydd ar gael), a nifer yr ysgolion a gynhelir.

17. Mae niferoedd llywodraethwyr mewn ysgolion cynradd wedi gostwng, a hynny am fod ysgolion wedi cau. Mae nifer y lleoedd gwag wedi amrywio o 3.3% i 6.4%, ond fel arfer mae wedi bod yn yr ystod 4.9% i 6.4%. Mae'r lefel a gofnodwyd yn fwyaf diweddar, sef 6.2%, o fewn yr ystod hon.

18. Mae niferoedd llywodraethwyr mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu o 3,874 i 4,082, a chyrhaeddodd ei lefel uchaf o 4,253 ym 1999/2000. Mae nifer yr ysgolion wedi gostwng ychydig. Fel arfer, mae'r gyfradd lleoedd gwag yn is nag mewn ysgolion cynradd ac mae wedi amrywio o 3.0% ym 1998/99 i 5.6% yn 2007/08, gan gyrraedd ei lefel uchaf o 6.2% yn 2005/06.

19. Mae niferoedd llywodraethwyr mewn ysgolion arbennig wedi amrywio rhywfaint, heb lawer o newid yn nifer yr ysgolion. Fel arfer, mae cyfraddau lleoedd gwag ychydig yn uwch nag mewn ysgolion cynradd neu uwchradd, yn amrywio o 8.0% i 4.4%, ac yn 4.8% yn y data diweddaraf.

20. Mae **Siart 1** yn dangos newidiadau yn y niferoedd cyfunol o lywodraethwyr ac ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'n dangos yn glir sut mae niferoedd llywodraethwyr wedi newid o'i gymharu â nifer yr ysgolion. Er ei bod yn anochel y bydd cyfran o leoedd llywodraethwyr gwag yn bodoli, mae'r siart yn dangos nad oes tystiolaeth bod nifer y llywodraethwyr yn newid yn gyflymach na nifer yr ysgolion.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

## Tabl 1

### Llywodraethwyr sy'n gwasanaethu mewn Ysgolion Cynradd a Gynhelir

| | 1998/99 | 1999/2000 | 2000/1 | 2001/2 | 2002/3 | 2003/4 | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y llywodraethwyr sy'n gwasanaethu | 20,597 | 20,039 | 20,321 | 20,314 | 19,671 | 19,362 | 19,311 | 19,303 | 18,737 | 18,441 |
| Nifer y lleoedd gwag ar gyrff llywodraethu ysgolion | 708 | 1,359 | 1,061 | 1,049 | 1,208 | 1,318 | 1,129 | 1,089 | 1,142 | 1,224 |
| Lleoedd gwag fel canran o'r holl lywodraethwyr sy'n gwasanaethu a'r lleoedd gwag | 3.3 | 6.4 | 5.0 | 4.9 | 5.8 | 6.4 | 5.5 | 5.3 | 5.7 | 6.2 |
| Nifer yr ysgolion | 1,660 | 1,644 | 1,631 | 1,624 | 1,602 | 1,588 | 1,572 | 1,555 | 1,527 | 1,509 |


### Llywodraethwyr sy'n gwasanaethu mewn Ysgolion Uwchradd a Gynhelir

| | 1998/99 | 1999/2000 | 2000/1 | 2001/2 | 2002/3 | 2003/4 | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y llywodraethwyr sy'n gwasanaethu | 3,874 | 4,253 | 4,271 | 4,223 | 4,174 | 4,133 | 4,139 | 4,047 | 4,094 | 4,082 |
| Nifer y lleoedd gwag ar gyrff llywodraethu ysgolion | 118 | 174 | 187 | 209 | 237 | 225 | 251 | 268 | 255 | 241 |
| Lleoedd gwag fel canran o'r holl lywodraethwyr sy'n gwasanaethu a'r lleoedd gwag | 3.0 | 3.9 | 4.2 | 4.7 | 5.4 | 5.2 | 5.7 | 6.2 | 5.9 | 5.6 |
| Nifer yr ysgolion | 229 | 228 | 229 | 227 | 227 | 227 | 227 | 224 | 224 | 222 |

### Llywodraethwyr sy'n gwasanaethu mewn Ysgolion Arbennig a Gynhelir

| | 1998/99 | 1999/2000 | 2000/1 | 2001/2 | 2002/3 | 2003/4 | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y llywodraethwyr sy'n gwasanaethu | n/a | n/a | 483 | 480 | 462 | 468 | 460 | 480 | 482 | 496 |
| Nifer y lleoedd gwag ar gyrff llywodraethu ysgolion | n/a | n/a | 42 | 22 | 37 | 32 | 34 | 35 | 35 | 25 |
| Lleoedd gwag fel canran o'r holl lywodraethwyr sy'n gwasanaethu a'r lleoedd gwag | n/a | n/a | 8.0 | 4.4 | 7.4 | 6.4 | 6.9 | 6.8 | 6.8 | 4.8 |
| Nifer yr ysgolion | n/a | n/a | 43 | 44 | 43 | 43 | 43 | 43 | 44 | 44 |

**Chart 1: Number of governors (left hand axis, red columns) and the number of schools (right hand axis, blue line) between 1998/99 and 2007/08**



[Chart text]
Chart 1: Number of .........
**Siart 1: Nifer y llywodraethwyr (echelin chwith, colofnau coch) a nifer yr ysgolion (echelin dde, llinell las) rhwng 1998/99 a 2007/08**

Number of serving governors
**Nifer y llywodraethwyr sy’n gwasanaethu**

Number of schools
**Nifer yr ysgolion**